

YMARFER 5 i'r Saesneg: Sylwadau

Mae cyngorau sir gogledd Cymru¹ wedi cyhoeddi adroddiad ar y cyd i fynd i'r afael â phroblem digartrefedd, mewn partneriaeth â Sefydliad Tai Siartredig Cymru. Mae'r ddogfen a gyhoeddwyd, 'Pobl, Cartrefi a Gwasanaethau', yn cyflwyno dull rhanbarthol o fynd i'r afael â digartrefedd² yng ngogledd Cymru, a strategaeth a fydd yn ymdrin â phob math o ddigartrefedd, boed yn bobl yn cysgu allan³, digartrefedd ymysg pobl ifanc, neu bobl sydd ar restrau aros tai cymdeithasol yn byw mewn llety dros dro.

Yn sylfaen i'r strategaeth, mae cynllun gweithredu rhanbarthol a chynlluniau gweithredu yr awdurdodau lleol unigol. Yn ei hanfod, mae'r strategaeth hon yn cydnabod⁴ nad yw ffiniau gweinyddol mewn gwirionedd yn berthnasol i ddigartrefedd a'r problemau sy'n ei achosi, ac felly bod rhaid i'r cyngorau gydweithio er mwyn cyfuno data, gwasanaethau ac atebion os ydynt am lwyddo i ddatrys y broblem hon.

Mae Llywodraeth Cymru wedi galw am fwy o gydweithio rhwng cyngorau, ac mae aelodau etholedig yr awdurdodau dan sylw yn cydnabod y bydd cydweithio fel hyn ym maes digartrefedd o fantais i gymunedau ar draws y rhanbarth.

Seiliwyd y strategaeth ar gydweithio er mwyn cyflawni nod cyffredin – dileu digartrefedd yng ngogledd Cymru. Fe'i datblygwyd oddi mewn i gyd-destun adolygiadau a strategaethau digartrefedd lleol, a bydd yn sail ar gyfer cynlluniau comisiynu a blaenoriaethau cyllido pob awdurdod lleol⁵.

Oddi mewn i'r strategaeth sonnir am y grwpiau penodol sydd angen cefnogaeth⁶, y mathau o gartrefi mae angen eu darparu⁷, a'r gwasanaethau fydd yn caniatáu iddynt fyw'n gynaliadwy yn y cartrefi hynny⁸.

[addasiad o erthygl yn *Y Cymro*]

*Siarter Cydraddoldeb Hiliol

1. **Cystrawen
/Ystyr**

...cyngorau sir gogledd Cymru

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Councils in the North Wales counties....*
2. *The north of Wales's county councils...*
3. *North Wales' councils...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *The county councils of North Wales...*
2. *County councils in North Wales...*
3. *North Wales county councils...*
4. *North Wales's county councils...*

SYLWADAU:

1. Gydag ymadrodd mor syml â 'chynghorau sir gogledd Cymru', mae cynigion Afl.1 ac Afl.2 yn rhyfedd ac yn wallus, y naill yn cynnwys pob cyngor yn siroedd y gogledd nid dim ond y cyngorau sir, a'r llall fel petai'n cyfeirio at gynghorau sir y tu hwnt i ogledd Cymru. Dylid gochel rhag gor-feddwl ymadroddion syml, gan fod hynny'n gallu arwain rhywun ar gyfeiliorn.

2. Diffyg gofal sy'n gyfrifol am y gwall yn Afl.3, oherwydd hepgorwyd y gair *county*.

3. Sylwch ar y gwahaniaeth yn y defnydd o'r collnod yn Ll.3 a Ll.4. Collnod sy'n dangos meddiant ydi hwn. Mae'n dangos bod y cyngorau sir dan sylw yn 'eiddo' i ogledd Cymru. Mae'r collnod yn cael ei ddefnyddio pan fydd yr enw yn gorffen ag 's'. Er enghraifft, bwriwch fod yna het sy'n eiddo i Les. Mae dwy ffordd o ddefnyddio'r collnod gydag enwau unigol:

- i) *Les' hat*
- ii) *Les's hat*

Mae'r ddwy ffordd yn gywir. Mae rhai yn defnyddio 's (*canvas's*) gydag enwau cyffredin yn unig, ac yn defnyddio'r dull arall gyda enwau priod (*Les', Jones'*). Y peth pwysicaf yw bod yn gyson. Mae enwau lluosog sydd eisoes yn diweddu ag 's' yn defnyddio ffurf i): *four cats' toys; seven monks' beds*. Darllenwch '*How to Use an Apostrophe*' ar y we am arweiniad syml:
<https://theoatmeal.com/comics/apostrophe>

2. **Ystyr/
Cywair**

...fynd i'r afael â digartrefedd;

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...taking control of homelessness*
2. *...how to deal with homelessness*
3. *...getting to grips with homelessness*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...tackling homelessness*
2. *...addressing homelessness*

SYLWADAU:

1. Mae Afl.1 ac Afl.2 yn gynigion gwallus sy'n ystumio'r ystyr. Mae Afl.3 wedi deall yr ystyr, ac wedi'i gyfleu'n briodol, ond mae'r ymadrodd a ddefnyddiwyd ychydig yn rhy anffurfiol.
2. Cymharer y rhain â'r ddau gynnig llwyddiannus. Mae *tackling* yn air cyfarwydd y dyddiau hyn a gwneir defnydd cyffredin ohono mewn teitlau pob math o ddogfennau ac ymgyrchoedd cyhoeddus, e.e. '*tackling poverty*', '*tackling obesity*'.

**3. Cystrawen/
Ystyr**

...boed yn bobl yn cysgu allan,

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...people who are sleeping outdoors*
2. *...people who are sleeping out on the streets*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...rough sleepers*
2. *...people sleeping rough*
3. *...rough sleeping*

SYLWADAU:

1. Nid yw Afl.1 wedi llwyddo i ddefnyddio'r ymadrodd priodol yn yr iaith darged. Cyfieithiad slafaidd yw, sy'n ystumio'r ystyr.
2. Mae Afl.2 wedi deall yr ystyr ond heb llwyddo i gael yr union ymadrodd priodol. Wrth ymhelaethu er mwyn cyfleu'r ystyr, yr hyn a wnaeth oedd cyfyngu ar yr ystyr. Nid ar strydoedd yn unig y ceir pobl ddigartref sy'n 'cysgu allan'. Ni ellir gorbwysleisio mor bwysig yw meddwl am ystyr darn cyn ei gyfieithu.
3. Cymharer hyn â'r tair enghraifft llwyddiannus, sydd wedi taro ar yr ymadrodd mwyaf priodol sy'n gwbl naturiol yn yr iaith darged ac o fewn cyd-destun y darn.

4. Cystrawen

Yn ei hanfod, mae'r strategaeth hon yn cydnabod...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Essentially, this strategy admits...*
2. *In its essence, this strategy acknowledges...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Essentially, this strategy recognises...*
2. *In essence, this strategy acknowledges...*

SYLWADAU:

1. Nid 'cyfaddef' sydd yn y gwreiddiol, ond '**cydnabod**', ac felly mae Afl.1 wedi ychwanegu ystyr nad yw yn y gwreiddiol.

2. Mae Afl.2 yn agos at lwyddo, petai ond wedi hepgor *its*. Yr ymadrodd priodol yw *in essence*. Defnyddir hwn i bwysleisio y cyfeirir at agwedd bwysicaf neu ganolog syniad neu ddogfen. Mae *essentially* hefyd yn dwyn yr un ystyr.

5. Ystyr

...a bydd yn sail ar gyfer cynlluniau comisiynu a blaenoriaethau cyllido pob awdurdod lleol.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...and will form the basis for every local authority's commissioning and prioritization plans.*
2. *...and will be the basis of commission and priority finance plans in every local authority.*
3. *...and it will be a base to commission planning and budget prioritising in each local authority.*
4. *...which will be a base for commissioned plans and the financial priority of every local authority.*
5. *....and will form the basis of each local authority's commission proposals and budgetary priorities.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...it will be a basis for the commissioning plans and funding priorities of every local authority.*
2. *...and will form the basis of every local authority's commissioning plans and funding priorities.*

SYLWADAU:

1. Mewn enghraifft fel hon, ceisiwch rannu'r cymal yn elfennau a'u cyfieithu ar wahân yn eich pen cyn dod â'r cwbl at ei gilydd. Bydd hynny o bosib yn gwneud pethau'n gliriach ac yn haws eu cyfieithu.

Felly, yn ôl y cymal hwn, mae yma 'awdurdodau lleol' [*'local authorities'*] ac mae gan y rheini ddau beth penodol, sef 'cynlluniau comisiynu' [*'commissioning plans'*] a 'blaenoriaethau cyllido' [*'funding priorities'*]. Bydd y strategaeth yn sail i'r ddau beth hyn, ac mae'n glir eu bod yn bethau ar wahân.

2. Mae Afl.1 ac Afl.2 wedi camddeall y gwreiddiol ac wedi ystumio'r ystyr yn llwyr, gydag Afl.1 hyd yn oed wedi hepgor unrhyw gyfeiriad at gyllid. Mae Afl.3 hefyd wedi mynd i bydedw du gan ddweud bod y strategaeth yn sail i gomisiynu cynllunio ac i flaenoriaethu'r gyllideb. Digon tebyg yw hanes Afl.4 hefyd sy'n camliwio'r ystyr drwy ddweud bod y strategaeth yn sail i gynlluniau sydd wedi'u comisiynu yn hytrach na chynlluniau comisiynu.

3. Mae'r ystyr yn cael ei ystumio yn yr enghreifftiau uchod hefyd, drwy ddewis gair amhriodol. Sylwch ar *budget* ('cyllideb') yn lle *funding* yn Afl.3, *base* yn lle *basis* yn Afl.4, *proposals* yn lle *plans*, a *budgetary* ('cyllidebol') yn lle *funding* yn Afl.5.

Er nad yw'n anghywir, yr arferiad mwyaf cyffredin erbyn hyn ym Mhrydain yw defnyddio 's' ac nid 'z', e.e. '*organisation*', nid

'organization'; 'prioritise' nid 'prioritize'.

6. **Cystrawen/
Ystyr** **Oddi mewn i'r strategaeth sonnir am y grwpiau penodol sydd
angen cefnogaeth...**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Within the strategy the particular groups are mentioned who need support...*
2. *Discussed within the strategy document are the specific groups of people in need of support...*
3. *In the strategy it mentions specific groups who require assistance...*
4. *Within the strategy, specific groups are mentioned who need support...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *The strategy mentions specific groups that require support...*
2. *Mentioned within the strategy are specific groups that require support...*

SYLWADAU:

1. Sylwer ar y gystrawen glogyrnaidd ym mhob un o'r enghreifftiau aflwyddiannus. Dyma enghreifftiau o gyfieithu sy'n cadw'n gaeth at gystrawen y gwreiddiol. Nid yw'r cynigion yn llifo.
2. Nid yw ystyr Afl.1 yn glir o gwbl.
3. Yn Afl.2 mae *discussed* yn mynd yn rhy bell oddi wrth ystyr y gwreiddiol. Cofiwch ystyried a oes angen 'the' yn Saesneg lle mae'r fannod yn Gymraeg, e.e. 'y **grwpiau penodol**'. Mae'r Saesneg yn aml yn llifo'n well heb ddefnyddio'r fannod benodol [definite article] e.e. *specific groups* yn hytrach na *the specific groups*.
4. Er bod Afl.4 yn nes ati, a'r ystyr yn glir, mae trefn y frawddeg yn lletchwith ac yn glogyrnaidd.
5. Ystyriwch hefyd y gwahaniaeth yn y defnydd o *who* a *that*. Yn gyffredinol, defnyddir 'who' i gyfeirio at berson, a 'that' i gyfeirio at grwpiau. Er enghraifft:
'It was Jane who rescued the bird.'
'Jane was on the team that rescued the bird.'

7. **Cywair** **...y mathau o gartrefi mae angen eu darparu...**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...the type of homes that need to be prepared...*
2. *...the types of homes that need to be supplied...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...the types of housing that need to be provided...*
2. *...the types of housing that are required...*

SYLWADAU:

1. Nid yw cywair *prepared* yn Afl.1 yn gywir. 'To prepare a home' fyddai ei gymoni ar gyfer ymwelwyr neu breswylwyr.

2. Mae gwahaniaeth cynnil yn ystyron 'provide' a 'supply'. Drwy ddefnyddio *supply*, mae Afl.2 wedi rhoi arlliw gwahanol i'r darn, gan awgrymu bod nifer benodol o dai eisoes wedi'u cynllunio, a bod angen i rywun fynd ati i'w codi. Mae 'supply' fel arfer yn cael ei ddefnyddio am ddarparu nwyddau e.e. 'to supply bricks', 'to supply water'. Mae'r enghraifft hon yn dangos ei bod yn bwysig ymglyfarwyddo â theithi'r iaith darged er mwyn 'clywed' gwahaniaethau fel hyn.

3. Sylwer hefyd ar gynildeb y mynegiant a naturioldeb y dweud yn enghraifft Ll.2. Yn aml iawn, yn Saesneg, defnyddir enw pan fydd berf yn Gymraeg, ac felly nid oes angen ffurf mor gwmpasog o fynegi rhywbeth yn Saesneg.

8. Cystrawen ...yn y cartrefi hynny.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. ...*in their homes*
2. ...*in these homes*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. ...*in those homes*

SYLWADAU:

1. Drwy ddefnyddio *their*, nid yw cynnig Afl.1 yn gywir, ac mae'r gystrawen, felly, yn ystumio'r ystyr.

2. Ansoddeiriau dangosol yw 'these' a 'those' a'r ffordd hawsaf o wybod pa un sy'n briodol i'w ddefnyddio yw cofio mai ffurfiau lluosog 'this' a 'that' ydyn nhw. Mae'r naill yn nes na'r llall. Edrychwch ar gyd-destun y darn. Nid yw'r tai wedi eu codi eto. Nid y 'cartrefi hyn' (*these homes*) a ddywed y Gymraeg, ond y 'cartrefi hynny' (*those homes*), sef y pellaf o'r ddau ansoddair.

CYFFREDINOL

Cywirdeb

Cafwyd nifer o fân wallau sillafu, gwallau atalnodi a gwallau gramadegol:

- *Chartered* yn lle *Chartered*
- *Its* yn lle *it's*
- *Have* yn lle *has*
- *The Welsh government*

SYLW:

Byddai gwirydd sillafu a gwirydd gramadegol wedi amlygu'r rhan fwyaf o'r mân wallau hyn, ynghyd â golygu gofalus.